

Adolygiad o'r Safonau Rheoleiddio Da

Papur ymgynghori

Mehefin 2018

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol¹ yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith naw corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir.² Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoledd y gweithlu iechyd a gofal. Rydym yn ymroddedig i fod yn annibynnol, diduedd, teg, hygyrch a chyson.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Ein hamcanion

Mae'r Awdurdod yn ceisio hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd ac i fod yn llais cryf, annibynnol ar gyfer cleifion wrth reoleiddio gweithwyr iechyd ledled y Deyrnas Unedig.

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn creu fframwaith i'n penderfyniadau. Maent yn ganolog i bwy ydym a sut yr hoffem i'n partneriaid ein gweld. Rydym yn ymroddedig i fod:

- Â ffocws ar les y cyhoedd
- Yn annibynnol
- Yn deg
- Yn dryloyw
- Yn gymesur.

¹ Roedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei adnabod yn flaenorol fel y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd.

² Awdurdod Safonau Proffesiynol. (2015) *Right-touch regulation*. Ar gael ar:

www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/improving-regulation/right-touch-regulation

Rheoleiddio cyffyrddiad cywir

Golyga rheoleiddio cyffyrddiad cywir edrych o hyd ar ba risg rydym yn ceisio ei rheoleiddio, bod yn gymesur a thargedig o ran rheoleiddio'r risg honno neu ganfod dulliau eraill heblaw rheoleiddio i hyrwyddo arfer da a gofal iechyd o ansawdd uchel. Golyga rheoleiddio cyffyrddiad cywir ddefnyddio'r isafswm o rym rheoleiddiol sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad a ddeisyfir.

Mae'r cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir a amlinellir isod:

- Nodi'r broblem cyn y datrysiad
- Meintoli'r risgiau
- Mynd mor agos at y broblem â phosibl
- Canolbwyntio ar y deilliant
- Defnyddio rheoleiddio ble fo angen yn unig
- Ei gadw'n syml
- Gwirio ar gyfer canlyniadau anfwriadol
- Adolygu ac ymateb i newid.

Cynnwys

Rhagair y Prif Weithredwr	5
1. Cefndir i'r ymgynghoriad hwn	6
2. Y Safonau Tystiolaeth Diwygiedig	8
3. Mesur perfformiad a gweithredu	17
4. Asesiad o effaith y cynigion	18
5. Cwestiynau ymgynghori	20
6. Ein proses ymgynghori	23
Atodiad A – y Safonau Rheoleiddio Da arfaethedig 2018	24
Atodiad B – y sylfaen o dystiolaeth	27

Rhagair y Prif Weithredwr

Y llynedd fe ddechreuom ymarfer i adolygu ein Safonau Rheoleiddio Da. Dyma'r Safonau a ddefnyddiwn i asesu ac adrodd ar berfformiad y naw rheolydd a oruchwylir gennym. Mae'r Safonau presennol wedi bod yn weithredol ers 2010 ac mae ymarfer rheoleiddiol wedi symud ymlaen cryn dipyn ers hynny. Roeddem eisiau sicrhau eu bod yn gyfredol.

Fe dderbyniom 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf a chynnal nifer o ddigwyddiadau i drafod agweddau unigol o'n cynigion. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd i'r ymarfer hwn. O ganlyniad i hyn, rydym wedi gallu sefydlu barn am y ffordd orau i symud ymlaen. Rwy'n falch ein bod wedi lleihau'r nifer o safonau y byddwn yn eu gweithredu gyda'r rheolyddion heb gyfaddawdu ar ansawdd ein gwaith neu'n gallu i asesu eu perfformiad. Rydym wedi cyflawni'r hyn yr ydym yn gobeithio fydd yn ymagwedd fwy hyblyg.

Rydym nawr yn ymgynghori ar eiriad manwl y Safonau a'r dystiolaeth fyddwn ni angen i asesu os yw'r rheolyddion yn eu bodloni neu beidio. Dyma ail gam ein gwaith ac mae'n allweddol os yw'r Safonau newydd i'w gweithredu'n llwyddiannus.

Gobeithiaf yn fawr iawn y bydd pawb o'r rhai sydd wedi cyfrannu i'n gwaith hyd yma yn gallu ein cynorthwyo i barhau gyda'r gwaith hwn fel y bydd ein Safonau yn berthnasol a defnyddiol i'r rheolyddion a'r cyhoedd.

Harry Cayton
Prif Weithredwr

1. Cefndir i'r ymgynghoriad hwn

Cyflwyniad

- 1.1 Y Safonau Rheoleiddio Da yw'r offeryn a ddefnyddia'r Awdurdod i adrodd ar berfformiad y nawr rheolydd a oruchwylir gennym. Gofynnir i ni adrodd i'r Senedd ar sut mae pob un o'r cyrff rheoleiddio wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion.
- 1.2 Er mwyn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon, rydym yn cyflawni adolygiadau perfformiad blynyddol o bob rheolydd. Mae'r adolygiadau hynny yn asesu perfformiad yn erbyn pob un o'r Safonau.
- 1.3 Mae'r Safonau presennol wedi bod ar waith er 2010 ac, yn 2017, penderfynodd yr Awdurdod eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn briodol o ystyried y newidiadau mewn ymarfer rheoleiddiol yn y cyfamser. Ein prif bryderon oedd:
 - Roedd y Safonau yn seiliedig ar weithgareddau unigol y rheolyddion – gosod safonau, addysg, cofrestru ac addaswydd i ymarfer – heb asesu meysydd eraill, megis llywodraethu effeithiol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth, a allai effeithio ar berfformiad
 - Roedd y Safonau yn ailadroddus mewn manau
 - Gallai canolbwyntio ar weithgareddau unigol olygu fod yr Awdurdod yn canolbwyntio llai ar berfformiad ehangach y rheolyddion
 - Roedd ymarfer rheoleiddiol wedi datblygu, ond nid oedd hyn wedi ei adlewyrchu yn y Safonau cyfredol.
- 1.4 Ym Mehefin 2017, cyflawnom ymgynghoriad ar newidiadau posibl i'r Safonau. Fe ystyriodd yr ymgynghoriad y meysydd canlynol:
 - Pa feysydd o waith y rheolyddion a ddylid eu hystyried yn y Safonau diwygiedig
 - Os dylid mabwysiadu'r Safonau newydd
 - OS dylid rhesymoli rhai o'r Safonau i gael gwared ar ddyblygiad mewn rhai meysydd neu ble nad yw'r Safonau yn angenrheidiol na'n ddefnyddiol mwyach
 - Os dylid newid cyflwyniad y Safonau
 - Os oedd yr ymagwedd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd' i asesu perfformiad yn erbyn y Safonau yn parhau i fod yn briodol.
- 1.5 Yn rhan o'r ymarfer ymgynghori, cynhaliom gyfarfodydd gyda'r rheolyddion ac eraill i drafod amrywiol agweddau'r Safonau. Derbyniom 29 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae [ein crynodeb](#) o'r rhain ar gael ar ein gwefan. O ganlyniad i'r ymatebion hyn, daethom i farn ar y ffordd fwyaf priodol ymlaen.

1.6 Penderfynom:

- Er y dylai'r Safonau barhau i asesu gweithgareddau allweddol y rheolyddion hyn, roedd cwmpas ar gyfer rhesymoli
- Nid oedd Safon yn seiliedig ar lywodraethu yn briodol, ond dylai'r Safonau ystyried rhai agweddau o lywodraethu
- Dylid cael Safon newydd parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Dylem ddefnyddio ein Hegwyddorion Rheoleiddio Da i hysbysu ein hymagwedd i asesu perfformiad
- Dylid cadw'r ymagwedd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd', gyda naratif clir ar gyfer pob Safon ar os oedd perfformiad yn dirywio neu'n gwella.

1.7 Mae'r Safonau drafft a drafodir yn yr adran nesaf wedi eu datblygu yn dilyn y penderfyniadau hyn. Rydym nawr yn chwilio am farnau ar:

- Eiriad manwl y Safonau
- Y dystiolaeth y dylem ystyried wrth asesu'r Safonau hynny
- Gweithrediad y Safonau.

1.8 Byddem yn ddiolchgar i dderbyn ymatebon erbyn **dydd Gwener 10 Medi 2018**. Yna byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn ystyried os dylid newid unrhyw rai o'n cynigion. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o ganlyniadau ein hymgyngoriad. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r Safonau newydd yn ystod yr Hydref 2018.

2. Y Safonau Tystiolaeth Diwygiedig

2.1 Rydym nawr am drafod ein Safonau diwygiedig arfaethedig. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Safonau yn ddigon hyblyg i alluogi rheolyddion i arloesi, tra'n cynnal agweddau allweddol o dryloywder a diogelu'r cyhoedd.

2.2 Rydym yn cynnig mabwysiadu pum grŵp o Safonau yn hytrach na'r pedwar presennol, ond i leihau'r nifer o Safonau ym mhob grŵp. Y grwpiau yw:

- Safonau Cyffredinol sy'n cwmpasu'r elfennau hynny o lywodraethu ac ymddygiadau'r rheolyddion sy'n effeithio ar berfformiad, ynghyd â gweithgareddau sy'n croesi'r ystod o swyddogaethau rheolyddion ac sy'n cynnwys nifer o'r safonau unigol
- Safonau yn cwmpasu gwaith y rheolyddion parthed safonau a chanllaw ar gyfer cofrestryddion
- Safonau yn cwmpasu gwaith y rheolyddion parthed Addysg a Hyfforddiant
- Safonau yn cwmpasu gwaith y rheolyddion parthed cofrestru
- Safonau yn cwmpasu gwaith y rheolyddion parthed addasrwydd i ymarfer.

2.3 Yn Atodiad B rydym wedi sefydlu'r ddogfen fframwaith tystiolaeth i gefnogi'r Safonau diwygiedig. Mae'r ddogfen hon yn sefydlu rhai o'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth wneud ein hasesiad o a yw rheolydd yn bodloni'r Safonau, yn ogystal â darparu enghreifftiau o dystiolaeth y gallai'r rheolyddion ddarparu i ddangos sut maent wedi bodloni'r Safonau.

2.4 Ni fwriedir i'r enghreifftiau fod yn hollgynhwysol, ac oherwydd bod y rheolyddion yn gweithredu o fewn cyd-destunau gwahanol, bydd perthnasedd y gwahanol fathau o dystiolaeth yn amrywio o un rheolydd i'r llall. Oherwydd hynny, nid ydym wedi rhagnodi sut fydd all pob rheolydd arddangos eu bod yn bodloni pob Safon.

2.5 Rydym yn awyddus i sicrhau bod y dystiolaeth a geisiwn yn gymesur a byddwn yn galluogi'r rheolyddion i arddangos fod y Safon yn cael ei bodloni.

Safonau Cyffredinol

2.6 Rydym wedi datblygu pump o Safonau newydd sy'n ymwneud â phob agwedd o sut mae'r rheolydd yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Mae'r Safonau hyn fel a ganlyn

Safon Un	Mae'r rheolydd yn darparu gwybodaeth gywir, hygyrch ynghylch ei gofrestryddion, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau.
Safon Dau	Mae'r rheolydd yn glir ynghylch ei

	ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisiau yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill.
Safon Tri	Mae'r rheolydd yn deall amrywiaeth poblogaeth y cofrestryddion a'i ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.
Safon Pedwar	Mae'r rheolydd yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano.
Safon Pump	Mae'r rheolydd yn ymgynghori gydag a gweithio gyda chyflogwyr, rheolyddion a rhanddeiliaid eraill ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei gofrestryddion.

2.7 Bwriad y Safonau newydd hyn yw sefydlu ein disgwyliadau o'r rheolydd ar draws ei weithgareddau. Byddwn yn archwilio pob agwedd o waith y rheolydd er mwyn asesu os yw'r Safonau wedi eu bodloni.

2.8 Yn flaenorol, cynhwyswyd elfennau o'r Safonau hyn ym mhob un o'r pedwar maes. Arweiniodd hyn at rywfaint o ddyblygiad, y mae'r Safonau cyffredinol hyn yn ceisio eu dileu. Disgrifiwn ddiben y Safonau hyn isod.

Safon 1: Mae'r rheolydd yn darparu gwybodaeth gywir, hygyrch ynghylch ei gofrestryddion, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau.

2.9 Mae'r Safon hon yn delio â materion megis y gofrestr ei hun, gwybodaeth am lwybrau cymhwys, safonau proffesiynol ac am benderfyniadau addasrwydd i ymarfer. Nid yw'n fwriad, ar hyn o bryd, i weithredu disgwyliadau uwch. Byddem yn disgwyl i weld tystiolaeth o hyn trwy archwilio gwefannau'r rheolyddion a deunyddiau cyhoeddus eraill.

Safon 2: Mae'r rheolydd yn glir ynghylch ei ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisiau yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill.

2.10 Mae'r Safon yma'n newydd. Rydym eisiau archwilio:

- Os yw'r rheolydd yn cynnal ei ffocws ar ei ddiben allweddol o ddiogelu'r cyhoedd wrth benderfynu ar ei weithgareddau
- Sut mae'n gweithredu ei bolisiau yn gyson ar draws ei weithgareddau, fel bod, er enghraifft, y safonau newydd wedi eu hadlewyrchu yn ei

ymagwedd i achosion addasrwydd i ymarfer ac addasrwydd i ymarfer parhaus

- Os yw'n gweithredu dysgu wrth ystyried canllaw newydd neu ofynion hyfforddi newydd.

2.11 Rydym yn disgwyl asesu'r Safon hon trwy edrych ar y dogfennau a ystyriwyd gan gyngor y rheolydd, ynghyd â thystiolaeth y gallwn weld o, er enghraifft, achosion addasrwydd i ymarfer y byddwn yn eu harchwilio neu o adborth gan drydydd partïon. Bydd croeso i'r rheolyddion ddarparu gwybodaeth eu hunain nad yw ar gael i'r cyhoedd sy'n arddangos sut maent yn bodloni'r Safonau.

Safon 3: Mae'r rheolydd yn deall amrywiaeth poblogaeth y cofrestryddion a defnyddwyr gwasanaeth y cofrestryddion hynny ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

2.12 Mae hon yn Safon newydd. Rydym yn cydnabod fod pob rheolydd yn wynebu materion gwahanol parthed amrywiaeth. Mae nifer o'r rhain tu hwnt i'w reolaeth. Fodd bynnag, rydym yn ystyried y dylai'r rheolydd fod yn ymwybodol o amrywiaeth ei gofrestryddion ac yn ymwybodol o anghenion penodol grwpiau penodol o'u cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Byddem yn disgwyl i reolyddion archwilio eu prosesau a chanlyniadau i sefydlu os oes yna dystiolaeth a allai awgrymu fod rhai unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig dan anfantais oherwydd unrhyw agwedd o'i reolau neu brosesau. Byddem yn disgwyl i'r rheoleiddiwr ystyried sut all ddelio â'r materion hynny sydd o fewn ei reolaeth ac os yw'n gallu gweithredu i sicrhau nad yw'n gwaethygu problemau sydd tu hwnt i'w reolaeth. Byddem yn disgwyl gweld y dystiolaeth o hyn o'r ystadegau cyffredinol ar amrywiaeth a gynhyrchwyd gan y rheoleiddiwr, o bapurau ei gyngor (yn arbennig asesiadau effaith) a, ble fo'n briodol, o newidiadau i'w brosesau a gweithdrefnau.

2.13 Yn ein trafodaethau gyda'r rheolyddion, holwyd y cwestiwn ynghylch os ddylai'r Safonau fynd ymhellach a phrofi perfformiad y rheolyddion o'u holl ddyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb, er enghraifft, y ddyletswydd i hyrwyddo amrywiaeth. Fe ystyriom nad oedd yn briodol i'r Safonau ymestyn mor bell â hyn ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y cylch gorchwyl hwn ac nid ein gwaith ni yw camu i'w esgidiau os oes pryderon ynghylch y materion ehangach o amrywiaeth. Yn ein barn ni, dylai ein camau cyntaf fod i archwilio'r meysydd ble mae pryderon allweddol am degwch a diogelu'r cyhoedd.

Safon 4: Mae'r rheolydd yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano.

2.14 Mae hon yn Safon newydd ac mae'n ceisio annog rheolyddion a'u cynghorau i fod yn dryloyw ac i daclo pryderon am eu perfformiad yn uniongyrchol. Mae'n bwysig y dylai rheolyddion fonitro eu perfformiad a gweithredu i ddelio â phryderon yn fuan. Mae'n cynorthwyo tryloywder os y'i gwelir i fod yn gwneud hyn yn gyhoeddus. Byddem yn disgwyl gweld cynghorau yn gweld adroddiadau

ar berfformiad, adroddiadau archwiliad ac adolygiadau perfformiad yr Awdurdod ei hun ac yn delio ag unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu dirywiad. Byddem yn disgwyl hefyd iddo fod yn ymwybodol o a delio ag unrhyw bryderon gan drydydd partïon, fel y Comisiynydd Gwybodaeth, rheolyddion eraill neu'r llysoedd.

2.15 Disgwyliwn y byddwn yn asesu'r Safon hon trwy ystyried yr wybodaeth a ddarperir i gynghorau ac asesu sut mae cynghorau yn ymateb.

Safon 5: Mae'r rheolydd yn ymgynghori gydag a gweithio gyda chyflogwyr, rheolyddion a rhanddeiliaid eraill ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei gofrestryddion.

2.16 Yn y Safon hon, rydym yn ceisio asesu i ba raddau mae rheolyddion yn gweithio gydag eraill, mewn gwirionedd. Mae'r amgylchedd modern mewn gofal iechyd yn gofyn i'r rheolyddion weithio gyda chyflogwyr a rheolyddion eraill i ddelio â materion ar y cyfle cyntaf posibl. Disgwyliwn y bydd hyn yn cynnwys pob maes o waith y rheolyddion, fel bod safonau a gofynion addysg wedi eu hysbysu gan wybodaeth gan gyflogwyr ac eraill, a bod prosesau addasrwydd i ymarfer yn talu sylw llawn i wybodaeth gan gyflogwyr a, ble fo'n briodol, yn cynnwys cyflogwyr.

2.17 Wrth asesu perfformiad yn erbyn y Safon hon, byddem yn edrych ar ymagwedd y rheolydd i ymgynghoriadau, protocolau gyda rheolyddion eraill a thrydydd partïon a sut mae'r rhain yn gweithio yn ymarferol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i reolyddion gynhyrchu eu datganiadau eu hunain o'u hymarfer yn y meysydd hyn i arddangos sut maent yn delio â'r Safon hon.

Cwestiynau

1. A yw'r Safonau yn adlewyrchu'r meysydd y dylai'r Awdurdod fod yn eu hystyried ar draws swyddogaethau'r rheolyddion yn briodol?
2. A oes unrhyw eiriad yn y Safonau cyffredinol yn aneglur neu'n amhriodol? Awgrymwch newidiadau.
3. A ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau penodol i reolyddion o ran darparu tystiolaeth i arddangos perfformiad yn erbyn y Safonau cyffredinol?
4. A oes yna unrhyw bwyntiau penodol ynghylch y Safonau cyffredinol ble'r hoffech gael eglurhad pellach?

Safonau a chanllaw profesiynol

2.18 Rydym wedi lleihau'r nifer o Safonau yn y maes hwn o bedair i ddwy. Mae'r Safonau drafft fel a ganlyn:

Safon Chwech	Mae'r rheolydd yn cynnal safonau ymddygiad a chymhwyster cyfredol a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
--------------	---

Safon Saith	Mae'r rheolydd yn darparu canllaw i helpu cofrestryddion weithredu'r Safonau ac yn sicrhau bod ei ganllaw yn gyfredol, yn delio â meysydd ymarfer newydd ac sy'n datblygu, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
-------------	---

2.19 Mae'r Safonau hyn yn rhesymoli'r pedair Safon flaenorol ac yn cadw'r ffocws ar y rheolydd yn darparu cofrestryddion ac eraill â gwybodaeth er mwyn iddynt allu deall beth a ddisgwylir ganddynt, ac i adolygu'r disgwyliadau hyn o ganlyniad i newidiadau i'r amgylchedd. Byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth debyg i'r hyn a geir ar gyfer y Safonau cyfatebol cyfredol. Rydym yn cynnwys gofyn am wybodaeth fwy targedig gan drydydd partion – er enghraifft, cyflogwyr, academyddion a rheolyddion eraill – er mwyn i ni allu bod yn sicr fod safonau'r rheolydd yn dal yn gyfredol.

2.20 Awgrymwyd fod y geiriad 'gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog' yn drwsgl ac y gallai fod yn briodol cyfnewid hyn gyda'r amcan strategol o sicrhau diogelwch cleifion, cynnal safonau proffesiynol a chynnal hyder y cyhoedd. Mae eraill wedi dadlau fod y geiriad presennol yn canolbwyntio ar ddiben craidd yr Awdurdod o ran canolbwyntio ar fuddiannau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ond rydym yn croesawu eich barn ar hyn.

Cwestiynau

5. A yw'r Safonau diwygiedig ar gyfer safonau a chanllaw yn adlewyrchu deilliannau'r maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
6. A yw'r cyfeiriad at 'gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog' yn dal yn briodol? Pa eiriau eraill fydddech chi'n awgrymu?
7. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch safonau a chanllaw?

Addysg a hyfforddiant

2.21 Rydym wedi lleihau'r nifer o Safonau yn y maes hwn o bedair i ddwy. Mae'r Safonau drafft fel a ganlyn:

Safon Wyth	Mae'r rheolydd yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a gedwir dan adolygiad, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
Safon Naw	Mae gan y rheolydd fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwylio yn darparu

	myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y rheolyddion ar gyfer cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu pryderon diogelwch cleifion ehangach.
--	--

2.22 Mae'r Safonau hyn yn rhesymoli'r pedair Safon flaenorol yn y maes hwn. Fel gyda'r Safonau blaenorol, mae'r ffocws yn dal i fod ar y ddwy agwedd o'r swyddogaeth addysg; datblygu a chynnal safonau ar gyfer hyfforddiant, a sicrhau ansawdd y rhaglenni a llefydd sy'n darparu hyfforddiant i gofrestryddion posibl. Rydym hefyd wedi cynnwys elfen benodol a ddaeth o Adroddiad Francis i bryderon yng Nghanol Swydd Stafford, fod yna rôl i fyfyrwyr o ran nodi arferion gwael.

2.23 Wrth asesu os yw'r rheolyddion yn bodloni'r Safonau hyn, byddem yn disgwyl drych ar dystiolaeth debyg i'n gofynion presennol. Fodd bynnag, byddwn yn chwilio am wybodaeth atodol gan drydydd partïon fel y disgrifiwyd ym mharagraff 2.16.

Cwestiynau

8. A yw'r Safonau diwygiedig parthed addysg a hyfforddiant yn adlewyrchu deilliannau'r maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
9. A oes agweddau eraill parthed gwaith addysg a hyfforddiant y dylid eu cynnwys?
10. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch addysg a hyfforddiant?

Cofrestru ac addasrwydd i ymarfer parhaus

2.24 Rydym wedi lleihau'r nifer o Safonau cofrestru o chwech i bedair. Mae'r Safonau arfaethedig fel a ganlyn:

Safon Deg	Mae'r rheolydd yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu ymarfer.
Safon Un ar Ddeg	Mae'r broses ar gyfer cofrestru, yn cynnwys apeliadau, yn gweithredu'n llyfn, yn deg ac effeithiol, gan esbonio penderfyniadau yn glir.
Safon Deuddeg	Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a

	seiliedig ar risg.
Safon Tair ar Ddeg	Mae gan y rheolydd ofynion cymesur i fodloni ei hun fod cofrestryddion yn dal i fod yn addas i ymarfer.

2.25 Mae'r Safonau hyn wedi eu lleihau i ddileu dyblygiad, gyda rhai agweddau o'r Safonau blaenorol yn cael eu symud i'r Safonau cyffredinol. Rydym yn cydnabod fod gan rai rheolyddion hefyd rolau parthed busnesau. Er na chrybwyllir hyn yn benodol yn y Safonau, byddem yn disgwyl i Safonau 10 a 13 yn benodol gynnwys gwaith y rheolyddion parthed busnesau, er y byddem yn ddiolchgar am farnau o ran a oes angen geiriad mwy penodol yma. Nid ydym yn disgwyl ehangu'r sylfaen dystiolaeth bresennol parthed y Safonau hyn.

2.26 Rydym wedi cadw Safon unigol (Safon Deuddeg) i ystyried sut mae'r rheolydd yn delio gyda materion ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru, yn ogystal â materion amddiffyn teitl. Rydym yn cydnabod nad yw'r broblem hon yn berthnasol i bob rheolydd ac y bydd dulliau gweithredu rhai eraill yn amrywio. Byddwn yn ceisio asesu os oes gan y rheolydd bolisi ar gyfer delio gyda'r mater hwn, ei fod yn canolbwyntio ar ddiogelwch y cyhoedd ac yn ei ddilyn. Byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth debyg i'r hyn a ddarperir gan y rheolyddion dan y Safon gyfatebol gyfredol.

2.27 Rydym wedi adolygu'r drafft o'r Safon yn ymwneud ac addaswydd i ymarfer parhaus. Rydym wedi drafftio'r Safon hon yn fwriadol o eang. Nid ydym yn ystyried fod cytundeb ar sut i sicrhau addaswydd i ymarfer parhaus, ac nid ydym eisiau cyfyngu ar ymagweddau'r rheolyddion yn y maes hwn. Fodd bynnag, rydym eisiau gwybod a ydych yn ystyried ei fod yn rhy eang, ac os dylid cael cyswllt penodol i ddiogelu'r cyhoedd a diogelwch cleifion. Yn rhan o'r dystiolaeth i gefnogi hyn, byddem yn disgwyl gweld y rheolyddion yn adolygu cymesuredd ac effeithlonrwydd eu gofynion yn rheolaidd.

Cwestiynau

11. A yw'r Safonau diwygiedig ynghylch llywodraethu ac addaswydd i ymarfer parhaus yn adlewyrchu deilliannau yn y maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
12. A oes agweddau eraill parthed cofrestru ac addaswydd i ymarfer parhaus y dylid eu cynnwys?
13. A yw Safon Tair ar Ddeg yn darparu lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer y cyhoedd tra'n sicrhau bod gan reolyddion yr hyblygrwydd i ddatblygu trefniadau sy'n addas ar gyfer eu cofrestryddion a defnyddwyr gwasanaeth?
14. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch cofrestru ac addaswydd i ymarfer parhaus?

Addaswydd i ymarfer

2.28 Rydym wedi lleihau'r nifer o Safonau yn y maes hwn o ddeg i bump. Mae'r Safonau arfaethedig isod:

Safon Pedair ar Ddeg	Mae'r rheolydd yn galluogi unrhyw un i fynegi pryder am gofrestrydd.
----------------------	--

Safon Pymtheg	Mae proses y rheolydd ar gyfer archwilio ac ymchwilio achosion yn gymesur, yn delio gydag achosion yn gyflym ac yn gyson gyda datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod y dystiolaeth orau posibl yn cael ei hystyried ar gyfer penderfyniadau yn ystod pob cam o'r broses.
Safon Un ar Bymtheg	Mae'r rheolydd yn sicrhau y gwneir pob penderfyniad yn unol â'i brosesau, eu bod yn gymesur, yn gyson a theg, yn ystyried yr amcanion statudol, safonau'r rheolydd a'r gyfraith achos berthnasol ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
Safon Dwy ar Bymtheg	Mae'r rheolydd yn nodi ac yn blaenoriaethu pob achos sy'n awgrymu risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol.
Safon Deunaw	Diweddarir pob parti mewn cwyn ar gynnydd eu hachos a'u cefnogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses.

2.29 Mae'r Safonau hyn yn parhau i ffocysu ar ddeilliannau yn ymwneud â'r amrywiol agweddau o addasrwydd i ymarfer, yn cynnwys rheoli risg, prydlondeb, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu gyda phartion. Rydym wedi rhesymoli'r Safonau i gael gwared ar ddyblygiad, yn ogystal â symud rhai agweddau i Safonau cyffredinol. Yn benodol, bydd yr heb Safon ynghylch toriadau gwybodaeth nawr yn cael ei hystyried yn rhan o ymagwedd gyffredinol y rheolydd i bryderon am ei berfformiad. Nod y Safonau yw bod yn hyblyg er mwyn i'r rheolyddion allu arloesi ble dymunant.

2.30 Mae Safon Pymtheg yn ceisio cynnwys pob agwedd o'r ymchwiliad i gwynion ac atgyfeiriadau, yn cynnwys ystyriaeth gychwynnol o wybodaeth neu gŵyn hyd yn oed os na chymerir camau ffurfiol. Gan fod rheolyddion yn gynyddol yn dirprwyo penderfyniadau am faterion o'r fath i lefelau is, mae'n bwysig fod y broses yn sicrhau nad yw pryderon pwysig yn cael eu colli.

2.31 Bwriedir i Safon Un ar Bymtheg gynnwys pob penderfyniad, yn cynnwys y rhai i edrych ar gwynion, a wneir gan bwyllgorau ac archwilwyr achos yn ogystal â phaneli.

2.32 Nid ydym yn disgwyl i'r dystiolaeth rydym angen i asesu perfformiad parthed y safonau hyn fod yn wahanol i'r dystiolaeth ofynnol parthed y Safonau presennol.

Cwestiynau

15. A yw'r Safonau diwygiedig yn adlewyrchu deilliannau maes addasrwydd i ymarfer gwaith y rheolyddion yn briodol?
16. A oes agweddau eraill o waith addasrwydd i ymarfer y dylid eu cynnwys?
17. A yw'r Safonau yn ddigon hyblyg i alluogi'r rheolyddion i addasu eu prosesau addasrwydd i ymarfer ble fo angen?
18. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch addasrwydd i ymarfer?

3. Mesur perfformiad a gweithredu

Mesur Perfformiad

- 3.1 Yn ein papur ymgynghori fe ofynnem am farnau ar os oedd yr ymagwedd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd' presennol i berfformiad yn briodol. Roeddem yn awyddus i gydbwyso'r angen i ddarparu datganiad clir o berfformiad y rheolyddion wrth sicrhau bod y darlun yn adlewyrchu pob agwedd o'r perfformiad hwnnw. Yn aml iawn nid yw hyn yn gwestiwn syml: efallai y bydd rheolydd yn methu Safon er ei fod wedi gwneud gwelliannau yn ystod y flwyddyn neu efallai y bydd yn bodloni Safon er gwaethaf dirywiad mewn perfformiad. Roeddem yn pryderu y gallai'r ymagwedd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd/ syml yn golygu nad oedd elfennau fel hyn yn cael eu hadlewyrchu'n briodol ac y gallai ymagwedd fwy graddedig fod yn briodol.
- 3.2 Wedi ystyried y cwestiwn yn ofalus, ein barn ni yw mai'r ymagwedd bresennol yw'r un mwyaf boddhaol. Fe ystyriom ei bod, mewn gwirionedd, yn bosibl nod perfformiad dirywiol ac sy'n gwella yn ein trafodaeth yn yr adolygiad a bod yna fudd i'r cyhoedd o fod yn glir yn ein hasesiad os yw Safon wedi ei bodloni neu beidio.
- 3.3 Felly rydym yn cynnig cadw'r ymagwedd 'bodlonwyd/ni fodlonwyd'.

Gweithredu'r Safonau newydd

- 3.4 Rydym yn cynnig penderfynu ar y Safonau a'r sylfaen tystiolaeth newydd yn yr hydref 2018. Disgwyliwn adrodd ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn y Safonau hynny yn ein hadolygiadau perfformiad o Ionawr 2020. Credwn y bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r rheolyddion baratoi'r gwahanol wybodaeth y byddwn angen i asesu eu perfformiad.
- 3.5 Rydym yn cydnabod y bydd gallai rhai o'r Safonau newydd alw am ddulliau newydd o gasglu data ac adrodd. Byddwn yn ystyried hyn yn ein hasesiad cychwynol o'r Safon.
- 3.6 Byddwn yn gwahodd rhai rheolyddion i weithio gyda ni i beilotio rhai o'r Safonau newydd yn rownd adolygiad perfformiad 2019. Byddai hyn yn cynnwys mantais i'r Awdurdod a'r rheolyddion i nodi unrhyw bryderon neu broblemau ac i ddelio â nhw cyn i'r Safonau newydd ddod i rym yn llawn

Cwestiynau

19. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ein cynnig i weithredu'r Safonau newydd yn yr adolygiadau perfformiad yn cychwyn yn 2020?
20. A fydddech chi'n cefnogi proses beilotio yn 2019? Os ydych chi'n rheolydd, a fydddech chi'n fodlon cymryd rhan yn y peilot?

4. Aseiad o effaith y cynigion

4.1 Fe drafodom effaith y cynigion yn ein papur ymgynghori blaenorol. Roeddem ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.

4.2 Ein barn gychwynnol oedd:

- Efallai y bydd y rheolyddion yn canfod baich cychwynnol o ran datblygu ffyrdd o dacio'r Safonau newydd ac efallai y bydd yna faich parhaus atodol i ddarparu gwybodaeth nad oedd yn ofynnol yn flaenorol. Fodd bynnag, credwn nad yw'n debygol y bydd y baich atodol yn sylweddol, yn arbennig gan y cafwyd lleihad cyffredinol yn y nifer o Safonau a'n bod wedi lleihau rhywfaint o'n gofynion gwybodaeth yn ddiweddar.
- Disgwyliwn gyflawni rhannau o'r gwaith hwn o fewn ein hadnoddau cyfredol.

4.3 Ni wnaeth yr ymatebion i'r papur ymgynghori awgrymu fod yna unrhyw bryderon ynghylch yr aseiad hwn, er bod y rheolyddion ac eraill yn awyddus i nodi pwysigrwydd sicrhau bod y baich o gyflenwi gwybodaeth yn cael ei gadw mor isel â phosibl. Byddem yn ddiolchgar am eich syniadau ar effaith debygol y cynigion manwl a sefydlwyd yn y papur hwn.

4.4 Fe ystyriom hefyd a oes goblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth arwyddocaol, naill ai'n positif neu'n negyddol, ar gyfer ein rhanddeiliad. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau cydraddoldeb neu amrywiaeth negyddol arwyddocaol o'n cynigion a disgwyliwn y bydd budd positif i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd o wella craffu ar y rheolyddion a ddaw wrth ddiweddarau'r Safonau. Yn wir, os bydd amrywiaeth yn cael ei gynnwys yn ein Safonau, byddem yn disgwyl rhai effeithiau positif.

4.5 Ni chafwyd unrhyw sylwadau o'r ymgynghoriad oedd yn rhoi unrhyw amheuaeth ar y farn hon, ond rydym yn parhau i groesawu unrhyw adborth i sicrhau ein bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

Cwestiynau

21.A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynghylch effaith y cynigion hyn ar y rheolyddion ac unrhyw gynnydd neu leihad tebygol yn y baich arnynt?

22.A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- Oedran

- Ailbennu rhywedd
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol
- Arall (nodwch).

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

5. Cwestiynau ymgynghori

Crynodeb o gwestiynau

5.1 Isod rydym yn sefydlu ein crynodeb o'r cwestiynau a holwyd yn y papur ymgynghori hwn.

1. A yw'r Safonau newydd hyn yn adlewyrchu'r meysydd y dylai'r Awdurdod fod yn eu hystyried ar draws swyddogaethau'r rheolyddion yn briodol?
2. A oes unrhyw eiriad yn y Safonau cyffredinol yn aneglur neu'n amhriodol? Awgrymwch newidiadau
3. A ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau penodol i reolyddion o ran darparu tystiolaeth i arddangos perfformiad yn erbyn y Safonau cyffredinol?
4. A oes yna unrhyw bwyntiau penodol ynghylch y Safonau cyffredinol ble'r hoffech gael eglurhad pellach?
5. A yw'r Safonau diwygiedig ar gyfer safonau a chanllaw yn adlewyrchu deilliannau'r maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
6. A yw'r cyfeiriad at 'gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog' yn dal yn briodol? Pa eiriau eraill fyddech chi'n awgrymu?
7. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch safonau a chanllaw?
8. A yw'r Safonau diwygiedig parthed addysg a hyfforddiant yn adlewyrchu deilliannau'r maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
9. A oes agweddau eraill parthed gwaith addysg a hyfforddiant y dylid eu cynnwys?
10. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch addysg a hyfforddiant?
11. A yw'r Safonau diwygiedig ynghylch llywodraethu ac addasrwydd i ymarfer parhaus yn adlewyrchu deilliannau yn y maes hwn o waith y rheolyddion yn briodol?
12. A oes agweddau eraill parthed cofrestru ac addasrwydd i ymarfer parhaus y dylid eu cynnwys?
13. A yw Safon Tair ar Ddeg yn darparu lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer y cyhoedd wrth sicrhau bod gan reolyddion yr hyblygrwydd i ddatblygu trefniadau sy'n addas ar gyfer eu cofrestryddion a defnyddwyr gwasanaeth?
14. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch cofrestru ac addasrwydd i ymarfer parhaus?
15. A yw'r Safonau diwygiedig yn adlewyrchu deilliannau maes addasrwydd i ymarfer gwaith y rheolyddion yn briodol?
16. A oes agweddau eraill o waith addasrwydd i ymarfer y dylid eu cynnwys?
17. A yw'r Safonau yn ddigon hyblyg i alluogi'r rheolyddion i addasu eu prosesau addasrwydd i ymarfer ble fo angen?
18. A oes gennych farn am y gofynion tystiolaeth parthed y Safonau ynghylch addasrwydd i ymarfer?

19. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ein cynnig i weithredu'r Safonau newydd yn yr adolygiadau perfformiad yn cychwyn yn 2020?
20. A fydddech chi'n cefnogi proses beilotio yn 2019? Os ydych chi'n rheolydd, a fydddech chi'n fodlon cymryd rhan yn y peilot?
21. A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynghylch effaith y cynigion hyn ar y rheolyddion ac unrhyw gynnydd neu leihad tebygol yn y baich arnynt?
22. A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
 - Oedran
 - Ailbennu rhywedd
 - Ethnigrwydd
 - Anabledd
 - Beichiogrwydd a mamolaeth
 - Hil
 - Crefydd neu gred
 - Rhyw
 - Tueddfryd rhywiol
 - Arall (nodwch)
23. Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

Sut i ymateb

- 5.2 Gallwch ymateb i'r papur ymgynghoriad hwn trwy anfon e-bost at: david.martin@professionalstandards.org.uk, neu trwy'r post at

David Martin
Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

- 5.3 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at david.martin@professionalstandards.org.uk.

- 5.4 Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **10 Medi 2018**.

Cyfrinachedd gwybodaeth

- 5.5 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â'n polisiau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).

- 5.6 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
- 5.7 Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.
- 5.8 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynndo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.
- 5.9 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

6. Ein proses ymgynghori

6.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, *Consultation principles: guidance*.³ Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion
- Sicrhau bod ein hymgynghoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

6.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Christine Braithwaite, Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi
Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040

christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

³ Swyddfa'r Cabinet. (2016) *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492132/20160111_Consultation_principles_final.pdf

Atodiad A – y Safonau Rheoleiddio Da arfaethedig 2018

Mae'r Safonau hyn yn sefydlu disgwyliadau'r Awdurdod ynghylch y canlyniadau mae'n disgwyl gan reolyddion a'u hymagwedd i'w gwaith.

Mae'r Safonau yn blaenoriaethu rôl graidd y rheolyddion yn:

- Amddiffyn cleifion a lleihau niwed
- Hyrwyddo safonau proffesiynol
- Cynnal hyder yn y proffesiynau.

Mae'r Safonau wedi eu hysbysu gan egwyddorion rheoleiddio da'r Awdurdod sy'n datgan y dylai rheolyddion weithredu mewn ffordd sydd:

- Yn gymesur
- Yn gyson
- Yn dargedig
- Yn dryloyw
- Yn atebol ac
- Yn hyblyg.

Byddwn yn archwilio perfformiad y rheolyddion gan ystyried yr egwyddorion hyn. Byddwn yn ystyried materion deddfwriaethol neu eraill tu allan i reolaeth y rheolydd a allai effeithio ar berfformiad. Mae'r Safonau yn cwmpasu pob agwedd o waith y rheolyddion yn cynnwys ble mae gan y rheolydd gyfrifoldeb dros fusnesau ac eiddo yn ogystal ag unigolion.

Bydd y Safonau yn cael eu hategu gan ganllaw ar y dystiolaeth fydd angen i farnu os yw'r Safonau hyn wedi eu bodloni.

Safonau Cyffredinol	
Safon un	Mae'r rheolydd yn darparu gwybodaeth gywir, cwbl hygyrch ynghylch ei gofrestryddion, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau.
Safon dau	Mae'r rheolydd yn glir ynghylch ei ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisiau yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill.
Safon tri	Mae'r rheolydd yn deall amrywiaeth poblogaeth y cofrestryddion a'i ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.
Safon pedwar	Mae'r rheolydd yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano.
Safon pump	Mae'r rheolydd yn ymgynghori gydag a gweithio gyda chyflogwyr, rheolyddion a rhanddeiliaid eraill ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei gofrestryddion. 23.1
Canllaw a Safonau	
Safon chwech	Mae'r rheolydd yn cynnal safonau ymddygiad a chymhwyster cyfredol a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
Safon saith	Mae'r rheolydd yn darparu canllaw i helpu cofrestryddion weithredu'r Safonau ac yn sicrhau bod ei ganllaw yn gyfredol, yn delio â meysydd ymarfer newydd ac sy'n datblygu, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
Addysg a Hyfforddiant	
Safon wyth	Mae'r rheolydd yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a gedwir dan adolygiad, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.
Safon naw	Mae gan y rheolydd fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwyllo yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y rheolyddion ar gyfer cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu bryderon diogelwch cleifion ehangach.
Cofrestrriad	
Safon deg	Mae'r rheolydd yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.
Safon un ar ddeg	Mae'r broses ar gyfer cofrestru, yn cynnwys apeliadau, yn gweithredu'n llyfn, yn deg ac effeithiol, gan esbonio penderfyniadau yn glir.
Safon deuddeg	Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a seiliedig ar risg.
Safon tair ar	Mae gan y rheolydd ofynion cymesur i fodloni ei hun fod cofrestryddion yn dal i fod yn addas i ymarfer.

ddeg	
Addasrwydd i Ymarfer	
Safon pedair ar ddeg	Mae'r rheolydd yn galluogi unrhyw un i fynegi pryder am gofrestrydd.
Safon pymtheg	Mae proses y rheolydd ar gyfer archwilio ac ymchwilio achosion yn gymesur, yn delio gydag achosion yn gyflym ac yn gyson gyda datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod y dystiolaeth orau posibl yn cael ei hystyried ar gyfer penderfyniadau yn ystod pob cam o'r broses.
Safon un ar bymtheg	Mae'r rheolydd yn sicrhau y gwneir pob penderfyniad yn unol â'i brosesau, eu bod yn gymesur, yn gyson a theg, yn ystyried yr amcanion statudol, safonau'r rheolydd a'r gyfraith achos berthnasol ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
Safon dwy ar bymtheg	Mae'r rheolydd yn nodi ac yn blaenoriaethu pob achos sy'n awgrymu risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol.
Safon deunaw	Diweddarir pob parti mewn cwyn ar gynnydd eu hachos a'u cefnogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses.

Atodiad B – y sylfaen o dystiolaeth

Safonau Cyffredinol		
	Ffactorau i'w hystyried	Tystiolaeth bosibl
<p>Safon Un</p> <p>23.2 Mae'r rheolydd yn darparu gwybodaeth gywir, cwbl hygyrch ynghylch ei gofrestryddion, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth hygyrch ynghylch ei weithgareddau rheoleiddiol i bawb sydd angen mynediad iddo Mae'r rheoleiddiwr yn arddangos gwybodaeth am ei gofrestryddion yn glir a chywir, mewn ffordd sy'n ddefnyddiol i'r rhai sydd angen mynediad ato mae'r rheoleiddiwr yn adolygu ei wybodaeth yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn gyfredol a defnyddiol i'r rhai sy'n ei chyrchu <p>23.3</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth ar argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth am weithgareddau rheoleiddiol dosbarthu'r cynllun i randdeiliaid, argaeledd mewn fformatau/ieithoedd eraill, ardstiad ymgyrch Plain English/Cymraeg Clir Tystiolaeth y cesglir ac adolygir adborth gan ddefnyddwyr am hygyrchedd y gofrestr yn rheolaidd Dogfennau a chanllaw i staff ar pa wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, a beth na ddylid ei ddatgelu, ac unrhyw bolisiau a chanllaw datgeliad <p>23.4</p> <p>23.5</p>
<p>Safon Dau</p> <p>23.6 Mae'r rheolydd yn glir ynghylch ei ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisiau yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rheolydd yn mynegi ei ddiben yn glir, ac yn gallu arddangos fod ei holl weithgareddau yn cael eu cyflawni i gefnogi hyn Gall y rheolydd arddangos sut y defnyddir deilliannau ei waith mewn un maes, os yn briodol, i hysbysu a gwella deilliannau mewn gweithgareddau eraill mae'n cyflawni 	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltiadau rhwng FTP a Chofrestru i sicrhau bod cofrestryddion yn dal wedi cofrestru'n briodol. Esboniad o sut y diweddarir y gofrestr gyda gwybodaeth FTP Mae gan y rheolydd gennad clir, ac mae'n mynegi sut mae hyn yn berthnasol i'w ddiben statudol fel y sefydlwyd yn ei ddeddfwriaeth Tystiolaeth ar sut mae'r rheolydd yn mewnosod safonau neu brosesau newydd ar draws ei swyddogaethau
<p>Safon Tri</p> <p>23.7 Mae'r rheolydd yn deall amrywiaeth poblogaeth y cofrestryddion a'i ddefnyddwyr wasanaeth ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae holl brosesau a chanllawiau'r rheolydd yn ddangosadwy deg, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y gallant barhau i fod Mae'r rheolydd yn deall ac yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth, a ble fo'n briodol yn adrodd ar ei weithgareddau yn y maes hwn 	<ul style="list-style-type: none"> Manylion sut mae'r rheolydd yn sicrhau bod ei brosesau yn rhydd o duedd, yn cynnwys dulliau casglu data neu brosesau eraill sy'n sicrhau tegwch a gwrthrychedd Gwybodaeth ar gael i ac wedi ei gasglu gan y rheolydd ynghylch cofrestryddion Ymchwil neu weithgareddau eraill a gyflawnir gan y rheolydd i hysbysu ei hun am faterion perthnasol i amrywiaeth Gweithredodd gan y rheolydd i ddelio â'r pryderon ynglŷn â'i brosesau

<p>Safon Pedwar</p> <p>23.8 Mae'r rheolydd yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan y rheolydd broses dryloyw, hygyrch iawn ar gyfer codi pryderon am ei berfformiad gan unrhyw un sy'n ymgysylltu â'i waith Mae'r rheolydd yn sicrhau'n rheolaidd y darperir gwybodaeth am ei berfformiad, a'i fod yn esbonio newidiadau i'r perfformiad hwnnw 	<ul style="list-style-type: none"> Papurau a gwybodaeth i'r Cyngor am berfformiad y rheolydd Manylion prosesau ar gyfer hysbysu'r cyngor am bryderon Adroddiadau blynyddol a gwybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus yn arddangos tryloywder
<p>Safon Pump</p> <p>23.9 Mae'r rheolydd yn ymgynghori gydag a gweithio gyda chyflogwyr, rheolyddion a rhanddeiliaid eraill ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei gofrestryddion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rheolydd yn deall yr amgylchedd mae'n gweithio ynddi, ac mae wedi datblygu perthnasau da gyda sefydliadau sy'n dylanwadu ar ei waith, neu weithgareddau'r rhai ar ei gofrestr Mae'r rheolydd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill er mwyn sicrhau y rheolir risgiau a gyflwynir gan y rhai ar ei gofrestr yn briodol Mae'r rheolydd yn casglu a defnyddio gwybodaeth gan sefydliadau eraill i reoli unrhyw risgiau yn deillio o'r wybodaeth a gyflwynir gan y rhai ar ei gofrestr 	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth ar adborth rhanddeiliaid am effeithiolrwydd y broses ymgysylltu o ran adolygiad/datblygiad safonau a chanllaw
<p>Canllaw a safonau</p>		
	<p>Ffactorau i'w hystyried</p>	<p>Tystiolaeth bosibl</p>
<p>Safon Chwech</p> <p>Mae'r rheolydd yn cynnal safonau ymddygiad a chymhwyster cyfredol a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan y rheolydd broses ar gyfer sicrhau'r adolygir ac yr addasir safonau ble fo'n briodol yn seiliedig ar newidiadau i ymarfer a deddfwriaeth. Mae'r rheolydd yn casglu adborth gan gofrestryddion a phartion perthnasol eraill (fel cynrychiolwyr cleifion a defnyddwyr gwasanaeth) ynghylch y safonau a gall arddangos sut yr ystyrir yr adborth hwn Gall y rheolydd arddangos sut mae'r safonau yn adlewyrchu gofal a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth Gall y rheolydd arddangos sut mae'n sicrhau a gwerthuso hygyrchedd y safonau Mae yna strategaeth werthuso glir ar gyfer y safonau Mae yna broses glir ar gyfer datblygu, gweithredu a gwerthuso arweiniad pellach sy'n cael ei ryddhau i gefnogi'r safonau Mae yna fframwaith llywodraethu a sicrwydd ansawdd clir ar gyfer datblygu safonau 	<ul style="list-style-type: none"> Cysylltiadau i safonau presennol cymhwyster c ymddygiad, ac unrhyw ddeunydd ategol Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn adolygu effeithlonrwydd y safonau cymhwyster ac ymddygiad ac amllder trefniadau i gynnal adolygiadau o'r fath Gwybodaeth ar sut y cesglir adborth yn ymwneud â'r safonau a sut y'i hystyrir wrth benderfynu pryd i ddiwygio eu cynnwys ac i benderfynu os dylid cyhoeddi arweiniad pellach Manylion yr amser ers yr adolygiad safonau diwethaf, a gwybodaeth am sut y cyflawnwyd yr adolygiad Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon
<p>Safon Saith</p> <p>Mae'r rheolydd yn darparu canllaw i helpu cofrestryddion weithredu'r safonau ac yn sicrhau bod ei ganllaw yn gyfredol, yn delio â meysydd ymarfer newydd ac sy'n datblygu, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.</p>		

Addysg a hyfforddiant		
	Ffactorau i'w hystyried	Tystiolaeth bosibl
<p>Safon Wyth Mae'r rheolydd yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a gedwir dan adolygiad, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gall y rheolydd arddangos sut mae ei safonau addysg a hyfforddiant yn cysylltu i'w safonau ar gyfer cofrestryddion, ac yn blaenoriaethu gofal ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog Mae safonau addysg a hyfforddiant y rheolydd yn gofyn i'r safonau ar gyfer cofrestru gael eu cynnwys yn rhan o gwricwlwm y rhaglen Mae safonau addysg a hyfforddiant y rheolydd yn darparu ar gyfer cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac / neu ofalwr mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant Mae gan y rheolydd broses ar waith i adolygu ei safonau addysg a hyfforddiant yn achlysurol. Mae'n gweithredu unrhyw ddyysgu a gasglwyd ynghylch ei swyddogaeth addysg, yn nodi unrhyw ddatblygiadau allanol perthnasol ac yn gwneud unrhyw adolygiadau neu ddiweddariadau angenrheidiol i'w safonau mewn modd amserol Mae'r rheolydd yn talu sylw i unrhyw dueddiadau a dysgu o ddeilliannau FTP myfyrwyr ble fo'n briodol wrth adolygu ei safonau a chanllawiau Mae'r rheolydd yn cyhoeddi neu'n darparu mewn ffordd arall arweiniad ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant i'w helpu i ddeall a bodloni safonau'r rheolydd 	<ul style="list-style-type: none"> Manylu/mapio sut mae'r safonau addysg yn cysylltu i'r safonau ar gyfer cofrestru Unrhyw broses ffurfiol i adolygu'r safonau addysg a gwybodaeth am amlder a chanlyniad yr adolygiadau Unrhyw werthusiad o effeithlonrwydd datblygu/proses y canllaw a safonau , yn arbennig parthed sylw a roddir i farnau rhanddeiliaid a deilliannau sicrwydd ansawdd Canllaw a roddwyd i fyfyrwyr gydag anabledau i sicrhau nad ydynt yn wynebu rhwystrau diangen i yrfaeodd llwyddiannus mewn iechyd Dogfennau canllaw ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant, ac i fyfyrwyr/hyfforddeion, wedi eu cyhoeddi ar wefan y rheolydd Unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd y prosesau datblygu/adolygu safonau a chanllaw Tystiolaeth o sut y defnyddir dysgu o achosion addasrwydd i ymarfer yn y broses addysg Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon
<p>Safon Naw Mae gan y rheolydd fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwylio yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y rheolyddion ar gyfer cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu pryderon diogelwch cleifion ehangach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gall y rheolydd ddarparu tystiolaeth o'i weithgaredd sicrwydd ansawdd, unrhyw bryderon neu dueddiadau a nodir a'r gweithredu arnynt (e.e. ble mae cymeradwyaeth yn destun amodau) Mae'r rheolydd yn rhannu unrhyw arfer da a nodwyd trwy ei broses sicrwydd ansawdd gyda darparwyr addas, a gall arddangos sut mae'n gweithio ar y cyd â nhw Mae'r rheolydd yn adolygu/gwerthuso ei broses sicrwydd ansawdd yn achlysurol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol Mae'r rheolydd yn gweithredu unrhyw ddyysgu am ei swyddogaeth addysg er mwyn gwella'r broses sicrwydd ansawdd yn barhaus Gall y rheolydd arddangos ei fod yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i'w baneli sicrwydd ansawdd Mae'r rheolydd yn talu sylw i 	<ul style="list-style-type: none"> Dogfennau disgrifiad/proses/arweiniad yn ymwneud â'r broses achredu Dogfennau disgrifiad/proses/arweiniad yn ymwneud â'r broses archwilio/ymweld Proses yn ymwneud â phenodi/hyfforddi/gwerthuso ymwelwyr/arolygwyr Gwybodaeth ar sut y cesglir adborth gan sefydliadau addysgol, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, a sut y defnyddir yr adborth yma, ynghyd â thystiolaeth o sut y defnyddiwyd adborth yn ymarferol Dolenni wedi eu cyhoeddi i adroddiadau i ganlyniadau'r broses sicrwydd ansawdd, ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig Gwybodaeth am sut yr aseswyd, deliwyd gydag a dilynwyd ar unrhyw bryderon a fynegwyd yn ystod archwiliadau neu trwy ofyn am ragor o wybodaeth gan y sefydliad Proses/meini prawf ar gyfer penderfynu sut i asesu, delio gydag a mynd ar drywydd unrhyw bryderon. Tystiolaeth o'r camau a gymerwyd parthed pryderon a godwyd am raglenni addysg/hyfforddiant na ddelir â nhw trwy ymweliadau archwilio/ceisiadau am wybodaeth gan y sefydliad perthnasol, yn

	<p>unrhyw dueddiadau a dysgu o ddeilliannau FTP myfyrwyr ble fo'n briodol fel tystiolaeth ar gyfer y broses sicrwydd ansawdd</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall y rheolydd arddangos sut mae ei broses sicrwydd ansawdd ar gyfer addysg a hyfforddiant yn gymesur ac yn osgoi dyblygu diangen ar gyfer darparwyr addysg Mae'r rheolydd yn dyrannu ei adnoddau i dargedu'r risgiau uchaf wrth gyflawni ei weithgareddau sicrwydd ansawdd Mae paneli sicrwydd ansawdd y rheolydd yn cynnwys unigolyn nad yw'n gofrestrydd/ymwelydd lleyg Gall y rheolydd arddangos sut mae ei broses sicrwydd ansawdd yn ffocysu ar gadarnhau fod darparwyr yn cynhyrchu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru Mae'r rheolydd yn casglu a defnyddio adborth gan gyflogwyr am gymhwyster gweithwyr proffesiynol sydd newydd gofrestru Gall y rheolydd ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau ei weithgaredd sicrwydd ansawdd Mae gan y rheolydd broses sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer mynegi pryderon am ddarparwyr neu raglenni addysg Gall y rheolydd ddarparu tystiolaeth o'r nifer o bryderon a dderbyniwyd am ddarparwyr neu raglenni addysg a sut y delio â'r pryderon hyn 	<p>cynnwys monitro unrhyw themâu</p> <ul style="list-style-type: none"> Unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd llwyddiant darparwyr addysg wrth gynhyrchu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni safonau cofrestru. Cysylltiadau i wybodaeth ar wefan y rheolydd am sut i fynegi pryderon Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon, yn cynnwys unrhyw dystiolaeth arall ar ddeilliannau gweithgaredd sicrwydd ansawdd y rheolydd a chamau a gymerwyd
Cofrestriad		
	Ffactorau i'w hystyried	Tystiolaeth bosibl
<p>Safon Deg Mae'r rheolydd yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion ar gyfer cofrestru yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gall y rheolydd arddangos fod ei safonau ar gyfer cofrestru yn briodol i'r cyd-destun a risgiau'r rhai mae'n eu rheoleiddio Gweithredir y safonau cofrestru yn gyson, ac mae gan y rheolydd broses ar gyfer gwneud penderfyniadau parthed cofrestru sy'n ddangosadwy deg yn dryloyw i bawb, wedi ei weithredu'n gyfartal a'i ddogfennu'n glir Mae yna wybodaeth glir ar gyfer pob ymgeisydd am gofrestriad (yn cynnwys amserlen ar gyfer cofrestru) ac mae'r wybodaeth hon yn bodloni anghenion pob math o ymgeisydd Mae gan y rheolydd fecanweithiau sicrwydd ansawdd ar waith i sicrhau cywirdeb y gofrestr ac i atal gwallau yn y broses gofrestru Mae cofrestryddion, ymgeiswyr ac eraill yn glir am y safonau ar 	<ul style="list-style-type: none"> Dogfennau SOP (gweithdrefnau gweithredu safonol)/proses sy'n disgrifio'r broses asesu ar gyfer ceisiadau am gofrestru, adfer ac adnewyddu, a ffurflenni/lythyrau templed cysylltiedig Disgrifiadau o'r gwahanol brosesau, amserlenni a meini prawf ar gyfer gwahanol fathau o ymgeiswyr (h.y. graddedigion y Deyrnas Unedig, ymgeiswyr o'r AEE ac ati) Disgrifiad o'r ffactorau y mae angen eu hystyried wrth benderfynu os bodlonwyd y meini prawf ar gyfer cofrestru. Ble fo'n berthnasol, y sail ddeddfwriaethol sy'n ategu'r meini prawf hyn Arweiniad i benderfynyddion, ac ymgeiswyr, sy'n disgrifio'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau/apeliadau KPIs ac SLAs sy'n sefydlu amserlenni ar gyfer penderfynu a phrosesu ceisiadau/apeliadau Ffurflenni ac arweiniad sy'n darparu gwybodaeth ar y broses gofrestru ar gyfer ymgeiswyr Esboniad a phroses ar gyfer diweddarar y gofrestr Sicrwydd ansawdd y gofrestr, yn cynnwys gwirio cywirdeb data
<p>Safon Un ar Ddeg Mae'r broses ar gyfer cofrestru, yn cynnwys apeliadau, yn gweithredu'n llyfn, yn deg ac effeithiol, gan esbonio penderfyniadau yn glir.</p>		

	<p>gyfer cofrestru, sut y gweithredir y rhain a sut mae'r rheolydd yn penderfynu ar gynnwys ar y gofrestr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r broses ar gyfer apêl wedi ei sefydlu'n glir a thryloyw, yn unol â rheolau a phrosesau'r rheolydd, ac wedi eu gweithredu'n gyson • Ble mae pryder posibl ynghylch cais am gofrestru, mae yna broses glir ar gyfer ymchwilio'r pryder hwn • Mae'r gofrestr yn hawdd i'w chyrchu, ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r rhai sy'n ei chyrchu, yn unol â rheolau a phrosesau'r rheolydd • Mae gan y rheolydd resymeg glir ar gyfer yr wybodaeth mae'n arddangos a'r cyfnod pan fydd yr wybodaeth hon ar gael, ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer 	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad o sut mae'r gofrestr, ei diben, sut i'w gwirio a beth mae'n gynnwys (a pha fath o wybodaeth nad yw'n arddangos) yn cael ei hyrwyddo • Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon, yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymau dros unrhyw newidiadau diweddar i'r polisi am y math o wybodaeth a ddangosir neu am faint o amser mae ar gael
<p>Safon Deuddeg Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd, a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a seiliedig ar risg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y rheolydd ganllaw ar waith ar gyfer ei hun ac eraill ar sut y delir â phryderon yn ymwneud ag ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru, yn cynnwys proses ar gyfer deall y risgiau a phryderon a godwyd • Mae penderfynyddion o fewn y rheolydd yn deall y sail a phroses ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chamddefnydd o deitl neu gyflawni'r swyddogaethau cyfyngedig • Mae gan y rheolydd strategaeth ar waith i gyfathrebu ei rôl, a rôl eraill, parthed ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau eraill ble fo'n briodol i wneud hynny • Gall y rheolydd arddangos sut mae ei weithgareddau yn y maes hwn yn gymesur i'r risgiau o ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru mae'n nodi • Mae'r rheolydd yn sicrhau bod cofrestryddion ac ymgeiswyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol yn y maes hwn 	<ul style="list-style-type: none"> • SOPs/dogfennau proses yn amlinellu sut mae'r rheolydd yn delio gyda chyhuddiadau ymarfer anghyfreithiol • Deddfwriaeth sy'n ategu'r ymagwedd hon • Meini prawf ac SLAs ar gyfer penderfynyddion • Dolenni i wybodaeth ar ymarfer anghyfreithiol ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill • Unrhyw werthusiad o gysondeb penderfyniadau a wnaethpwyd parthed cwynion ynghylch gweithredu ar ymarfer anghyfreithlon/heb gofrestru • Unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd gweithgaredd y rheolydd e.e. Monitro cydymffuriad gyda llythyrâu "ymatal" • Gwybodaeth mae'r rheolydd yn cyhoeddi i'w gofrestryddion am gamau a gymerwyd parthed ymarfer anghyfreithiol a'u cyfrifoldebau • Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon
<p>Safon Tair ar Ddeg Mae gan y rheolydd ofynion cymesur i fodloni ei hun fod cofrestryddion yn dal i fod yn addas i ymarfer.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y rheolydd CPD (neu system gyfatebol) ar waith sy'n sicrhau addasrwydd i ymarfer parhaus (CFTP) • Mae'r rheolydd yn gofyn am adborth gan gofrestryddion a rhanddeiliaid ar effeithlonrwydd ei broses CFTP, ac yn ystyried yr adborth hwnnw wrth wneud newidiadau i'r system • Mae'r rheolydd yn sicrhau bod y system CFTP yn parhau i fod yn addas i'r diben, gan ystyried newidiadau i'w safonau, addysg a hyfforddiant, a chyd-destun clinigol a moesegol 	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad o'r broses mae'n rhaid i gofrestryddion ddilyn i arddangos CFTP • Y sail ddeddfwriaethol dros y broses honno • SOPs/dogfennau proses sy'n disgrifio sut mae CFTP yn cael ei asesu gan y rheolydd • Dolenni i wybodaeth i gofrestryddion ac eraill ar y broses CFTP • Tystiolaeth fod y rheolydd wedi targedu ei system CFTP tuag at sicrhau bod rheolyddion yn datblygu eu sgiliau yn eu meysydd ymarfer, a diogelu'r cyhoedd • Tystiolaeth fod y rheolydd yn nodi ac yn defnyddio'r wybodaeth mae'n casglu ar sut mae cofrestryddion yn cyflawni CFTP i

	<ul style="list-style-type: none"> newidiol ei gofrestryddion Ble fo'n briodol, defnyddir dysgu o rannau eraill o waith y rheolydd i hysbysu a gwella'r broses a deilliannau CFTP 	<ul style="list-style-type: none"> hysbysu a datblygu ei brosesau Defnyddir dysgu FTP ble fo'n briodol yn natblygiad CFTP Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon Unrhyw wybodaeth gan gofrestryddion ar effeithiolrwydd y broses CPC/CFTP Unrhyw werthusiad o os yw cofrestryddion sy'n destun cyfyngiadau FTP wedi cydymffurfio â gofynion CPC/CFTP diweddar <p>Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon</p>
Addasrwydd i ymarfer		
	Ffactorau i'w hystyried	Tystiolaeth bosibl
<p>Safon Pedair ar Ddeg Mae'r rheolydd yn galluogi unrhyw un i fynegi pryder am gofrestrydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rheolydd yn sicrhau bod amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses FTP yn cael eu monitro'n weithredol, ac y rheolir achosion yn effeithiol ac yn rhagweithiol i osgoi oedi 	<ul style="list-style-type: none"> SOPs/dogfennau proses sy'n sefydlu sut mae'r rheolydd yn rheoli camau'r broses addasrwydd i ymarfer, a ffurflenni/llythyrau templed cysylltiedig Deddfwriaeth berthnasol, a sut mae hyn yn berthnasol i'r ffordd mae'r rheolydd wedi adeiladu'r broses FTP
<p>Safon Pymtheg Mae proses y rheolydd ar gyfer archwilio ac ymchwilio achosion yn gymesur, yn delio gydag achosion yn gyflym ac yn gyson gyda datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod y dystiolaeth orau posibl yn cael ei hystyried ar gyfer penderfyniadau yn ystod pob cam o'r broses.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rheolydd wedi dogfennu a gweithredu proses yn gyson ar gyfer pob cam o'r broses FTP, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn ddangosadwy Mae arweiniad wedi ei gyhoeddi ac ar gael yn hawdd i bawb ar sut y cyflawnir y broses FTP, ac mae'r arweiniad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn ddangosadwy Mae'r rheolydd yn sefydlu'n glir sut mae'n arddangos pa gwynion sy'n bodloni ei drothwy ar gyfer ymchwilio, a sut y gweithredir y trothwy hwn yn gyson, yn deg, ac yn unol â'i safonau, rheolau a pholisïau 	<ul style="list-style-type: none"> SLAs a KPIs perthnasol i bob cam o'r broses FTP a thystiolaeth o sut mae cydymffurfiaid wedi ei fonitro; deilliannau'r broses fonitro a chamau a gymerwyd parthed diffyg cydymffurfiaid Canllaw i staff a phenderfynyddion ar asesu os yw gwybodaeth/atgyfeiriadau a dderbyniwyd angen ymchwiliad FTP. Tystiolaeth o sicrwydd ansawdd cyfran o benderfyniadau i beidio ymchwilio, a nodi unrhyw ddysgu perthnasol. Manylion sut mae'r rheolydd yn sicrhau bod y broses yn ddangosadwy glir o duedd, yn arbennig tuedd o blaid cofrestryddion Storio a chyfathrebu gwybodaeth a dogfennau i sicrhau y caiff ei thrin yn ddiogel ble fo'n briodol, a manylion y polisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth perthnasol. Gwybodaeth am sut mae'r rheolydd yn gwirio cydymffurfiaid Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon Tystiolaeth o sicrwydd ansawdd penderfyniadau asesu risg a gymerwyd, a gweithrediad unrhyw ddysgu a nodwyd MOUs a chytundebau gyda chyrrff eraill, yn sefydlu'r trefniadau rhannu ar gyfer gwybodaeth FTP SOPs/proses ar gyfer asesiad risg cychwynnol a pharhaus achosion, yn ogystal â'r broses ble mae'r rheolydd yn blaenoriaethu achosion Arweiniad i lunwyr penderfyniadau ar feini prawf ar gyfer atgyfeiriadau IO Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon Tystiolaeth o atgyfeiriadau a wnaethpwyd i reolydd proffesiynol/systemau arall neu gorff perthnasol arall, a thystiolaeth fod y rheolydd yn rhannu ei ddysgu am yr atgyfeiriadau hyn gyda chyrrff eraill
<p>Safon Dwy ar Bymtheg Mae'r rheolydd yn nodi ac yn blaenoriaethu pob achos sy'n awgrymu risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bod yna broses glir, wedi dogfennu ar gyfer asesu risg a rheoli achosion ar dderbyn a thrwy gydol oes ymchwiliad, bod y broses hon yn cael ei gweithredu'n deg a chyson, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn ddangosadwy 	<ul style="list-style-type: none"> SOPs/proses ar gyfer asesiad risg cychwynnol a pharhaus achosion, yn ogystal â'r broses ble mae'r rheolydd yn blaenoriaethu achosion Arweiniad i lunwyr penderfyniadau ar feini prawf ar gyfer atgyfeiriadau IO Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon Tystiolaeth o atgyfeiriadau a wnaethpwyd i reolydd proffesiynol/systemau arall neu gorff perthnasol arall, a thystiolaeth fod y rheolydd yn rhannu ei ddysgu am yr atgyfeiriadau hyn gyda chyrrff eraill
<p>Safon Deunaw Diweddarir pob parti mewn cwyn ar gynnydd eu hachosion a'u cefnogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae yna ganllaw clir ar gyfer penderfynyddion a staff ar sut i benderfynu os yw asesiad risg achos yn galw am gyfeirio at banel gorchmynion dros dro, ac os yw'r canllaw hwn yn cael ei weithredu'n deg a chyson. Gall y rheolydd arddangos sut mae'n gweithio gydag asiantaethau eraill i gasglu a rhannu gwybodaeth am ei gofrestryddion, a ble fo'n briodol fod achosion yn cael eu cyfeirio at yr asiantaethau hynny trwy broses a 	<ul style="list-style-type: none"> Arweiniad, meini prawf ac SLAs ar gyfer penderfynyddion a gwybodaeth am ba mor aml mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'r broses ar gyfer eu hadolygu Proses ar gyfer cyhoeddi, ac arweiniad ar beth na ddylid ei gyhoeddi

	<p>ddogfennir, sy'n gyson, wedi ei gweithredu'n deg ac wedi ei hadolygu'n rheolaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan benderfynyddion addasrwydd i ymarfer ganllaw clir yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r canllaw yma yn cael ei gyhoeddi, a'i adolygu'n rheolaidd ac yn ddangosadwy • Penodir a hyfforddir penderfynyddion trwy broses sy'n gadarn a thryloyw, ac mae'r rheolydd yn sicrhau bod y penderfynyddion hyn yn cadw eu sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol • Mae'r rheolydd yn sicrhau bod y broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad neu gŵyn yn dryloyw, hawdd eu deall, a bod canllaw ar gael i'r rhai sydd eisiau gwneud cwyn ar rôl y rheolydd a'i bwerau • Mae'r rheolydd yn sicrhau bod pob parti i gŵyn yn cael gwybod am broses yr ymchwiliad mewn ffordd amserol, sensitif i anghenion yr unigolion hynny, ac sy'n hyblyg er mwyn talu sylw i natur newidiol unrhyw ymchwiliad 	<ul style="list-style-type: none"> • Proses ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth heb ei chyhoeddi i randdeiliaid perthnasol (e.e. Cyflogwyr) fel fo'n briodol • Proses yn ymwneud â phenodi/hyfforddi/gwerthuso archwilwyr achos/aelodau IC/panelwyr yn cynnwys darparu adborth ar ddysgu a nodwyd o sicrwydd ansawdd ar benderfyniadau • Proses ar gyfer, a chanlyniad, sicrwydd ansawdd mewnol rheoliad ar benderfyniadau a wnaed gan benderfynyddion ar bob lefel o'r broses FTP • Gwybodaeth am y nifer o bryderon a godwyd/cwynion a wnaed a ategwyd o ran ansawdd penderfyniadau FTP, a chamau a gymerwyd mewn ymateb • Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawniad presennol y Safon hon • Gwybodaeth am sut mae'r rheolydd yn cyfathrebu i gofrestryddion ac i'r cyhoeddi yn gyffredinol am ddeilliannau ei weithgaredd FTP e.e. Trwy gyhoeddi data ystadegol a chrynodebau achos neu adroddiad FTP blynyddol • Unrhyw werthusiad o amlder ailadrodd pryderon FTP gan yr un ymarferwyr yn dilyn casgliad y broses FTP wreiddiol • Unrhyw werthusiad o amlder torri amodau/gwaharddiadau • Dolenni at wybodaeth ar sut i wneud cwyn; gwybodaeth am unrhyw weithgaredd ymgysylltu a gyflawnir i fesur ac/neu wella ymwybyddiaeth o broses FTP rheolydd • Gwybodaeth ar gael yn fewnol ac i randdeiliaid ar rôl rheolyddion, a pha fathau o gwynion y gall ddelio â nhw • Arweiniad i staff am gyfeirio cwynion at sefydliadau eraill, ble fo'n briodol • Gwybodaeth i gyfranogwyr yn y broses, fel arweiniad i dystion • SLAs, SOPs ac arweiniad i staff ar hysbysu pob parti yn rheolaidd; monitro cydymffurfriad gyda'r SLAs, SOPs, a dogfennau arweiniad hynny a gweithredu'n brydlon i unioni a nodi materion thematig • Monitro cwynion a wnaethpwyd/pryderon a godwyd/adborth a dderbyniwyd am amserlenni yn y broses FTP ac am brofiadau tystion/hysbyswyr o'r broses, er mwyn nodi meysydd ble mae angen gwelliant • Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawni presennol y Safon hon • Cynigir cyfle i dystion a hysbyswyr ddarparu adborth ar y broses, ac mae unrhyw adborth a ddarparwyd yn cael ei adolygu gan nodi unrhyw ddysgu perthnasol. • Rhoddir gwybodaeth am hyfforddiant i benderfynyddion am ystyriaethau priodol parthed tystiolaeth tystion/hysbyswyr bregus
--	---	--

--	--	--

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**

Ffacs: **020 7389 8040**

E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**

Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**